**TAG UG/UWCH**

2000N30-1

S24-2000N30-1

**DYDD MERCHER, 22 MAI 2024 – PRYNHAWN**

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF – UG uned 3

## Defnyddio Iaith, a Barddoniaeth
## (Papur Ysgrifenedig)

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

Llyfryn 2000N30-1A, sy'n cynnwys y cerddi.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Awgrymir eich bod yn treulio 45 munud ar Adran A ac 1 awr 15 munud ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** Atebwch **bob** rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.

(a) Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, **un** ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd:

ystyrir
awn i fy hunan
ynddo [6]

(b) Darllenwch y darn sydd yn y blwch isod sy'n rhan o golofn olygyddol papur bro ac atebwch gwestiynau (i) a (ii). Yn dilyn hynny, atebwch gwestiynau (iii) – (viii).

> 'Ar ddiwedd blwyddyn mae'n gyfle i ddiolch i'r holl wirfoddolwyr a chyfranwyr am eu gwaith diflino yn creu rhifyn diddorol yn **<u>fisol</u>**. Dymuniadau gorau i chwi ddarllenwyr ffyddlon …'

(i) Edrychwch ar y **gair** sydd mewn print trwm ac wedi ei danlinellu ac eglurwch yn llawn y rheswm pam mae wedi ei dreiglo. [1]

(ii) Chwiliwch am enghreifftiau o'r canlynol yn y blwch uchod:

enw benywaidd unigol
ansoddair yn dilyn enw gwrywaidd unigol [2]

(iii) Isod mae tri phâr o frawddegau. Defnyddiwch **ragenw perthynol** i gyfuno'r ddwy frawddeg ym mhob pâr i greu brawddeg sy'n cyfleu'r un ystyr. Gwnewch hyn ar gyfer 1, 2 a 3.

1 Dyma'r ferch. Roeddwn yn siarad am y ferch neithiwr.

2 Disgynnodd y llanc dros y dibyn. Yr oedd yn chwilio am ei gi defaid.

3 Hon yw'r nofel. Nid oes neb yn y dosbarth wedi darllen y nofel. [3]

(iv) Ailysgrifennwch y frawddeg isod gan gywiro'r ymadrodd Seisnig:

Agorir siop gymunedol heddiw ac mae pethau'n edrych ar i fyny. [1]

(v) Mae **dau** wall yn y frawddeg isod. **Lluniwch dair colofn:** yn y gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro.

Byddai'r ysgol wedi bod mor llwyddiannus â erioed yn y gystadleuaeth os byddai'r disgyblion wedi chwarae'n dda. [4]

(vi) Newidiwch y frawddeg ganlynol i'r **lluosog**.

A yw ef wedi cofio ei arian? [2]

(vii) Lluniwch **un frawddeg** gan ddefnyddio'r wybodaeth i gyd sydd yn yr ail golofn isod. [2]

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Cae Gors |
| **Disgrifiad:** | tafarn |
| **Pa fath?** | cymunedol |
| **Lluniaeth:** | darparu bwyd cartref, blasus |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | darparu teithiau amrywiol |

(viii) Ailysgrifennwch y **neges e-bost** a ganlyn gan ei gwneud yn un fwy **amrywiol ei brawddegau**. Gallwch newid trefn y sylwadau ac uno brawddegau, os dymunwch. Cewch gychwyn **un** frawddeg yn unig gyda 'Bydd'. [4]

[25]

**Oddi wrth:** Non Davies ndavies@ywern.ceredigion.sch.uk
**Anfonwyd:** 30 Tachwedd, 2024 9.00
**At:** Disgyblion Uwch Gyfrannol
**Testun:** Prawf Llafar

Bydd prawf llafar yn cael ei gynnal yn y wers ddydd Mercher nesaf. Bydd y prawf yn digwydd mewn grwpiau o dri. Bydd disgwyl i chwi adolygu dwy act gyntaf y ddrama. Bydd angen trafod cymeriad. Gallwch ddewis cymeriad eich hun. Bydd angen i chwi ddyfynnu'n gywir. Bydd angen i chwi hefyd gyfeirio at olygfeydd perthnasol. Bydd y ddau beth hyn yn cael eu gwobrwyo.

Non Davies
Pennaeth Adran y Gymraeg
Ysgol Gyfun y Wern

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**2.** Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

Wrth ateb, dylech gofio:

- trafod y tair cerdd wrth ymateb i ofynion y cwestiwn
- dadansoddi arddull
- cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol
- defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

**Naill ai**

(a) Mynegi'r **ymdeimlad dwfn o berthyn** a wna nifer o feirdd yn eu cerddi, boed i ddarn o dir neu gymdeithas. **Trafodwch** a **chymharwch** arwyddocâd yr ymdeimlad hwn o berthyn a gawn yng ngwaith Gwenallt, Gwyn Thomas a Waldo Williams. Dylech gyfeirio at **gynnwys** ac **arddull** y cerddi, ac **agwedd** y beirdd. [40]

**Neu**

(b) Mae lleoliad penodol wedi sbarduno cerddi Menna Elfyn, Myrddin ap Dafydd ac Ifor ap Glyn. **Trafodwch** a **chymharwch** y **themâu** sy'n codi yn y lleoedd arbennig hyn. Dylech gyfeirio at **gynnwys** ac **arddull** y cerddi, ac **arwyddocâd y lleoedd** arbennig hyn i'r beirdd. [40]

**DIWEDD Y PAPUR**